
Ymgynghoriad cyntaf ar newidiadau arfaethedig i BBC iPlayer – cais am dystiolaeth

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 25 Ebrill 2019

Dyddiad Cau ar gyfer derbyn Ymatebion: 10 Mai 2019

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Rydym yn agor Asesiad Cystadleuaeth BBC i benderfynu a yw gwerth cyhoeddus y newidiadau y mae'r BBC yn bwriadu'u gwneud i BBC iPlayer yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Beth rydyn ni'n ymgynghori yn ei gylch

Y llynedd, fe'i gwnaethom yn ofynnol i'r BBC gynnal prawf budd cyhoeddus (PIT) i ganiatáu cynnal archwiliad cyhoeddus o'r newidiadau i'r BBC iPlayer. Roedd y BBC wedi bod o'r farn nad oedd y newidiadau a gynlluniwyd ar gyfer 2018 a 2019 yn 'sylweddol' ac nad oedd angen prawf budd cyhoeddus felly. Mae cynulleidfaoedd yn gallu manteisio ar amrywiaeth ehangach o wasanaethau teledu, yn gallu gwyllo gwasanaethau fideo ar-alw gan gwmnïau rhyngwladol fel Netflix ac Amazon Prime Video, yn ogystal â gwasanaethau fideo ar-alw sy'n cael eu darparu gan Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus y DU. Felly, fe'n calonogwyd fod y BBC yn ceisio esblygu ac addasu'i wasanaethau a nodasom ei uchelgais i ddatblygu BBC iPlayer yn gyflymach a buddsoddi mwy ynddo. Fodd bynnag, roeddem yn anghytuno ag asesiad y BBC am yr angen am broses cyhoeddus a dwedasom wrtho am ystyried strategaeth dros gyfnod hwy i drawsnewid y BBC iPlayer, fel bod modd deall yr effeithiau ar yr holl bartion sydd â diddordeb yn llawn.

Erbyn hyn mae'r BBC wedi cwblhau ei brawf budd cyhoeddus. Cynhaliodd y BBC ymgynghoriad cyhoeddus 6-wythnos ar ei gynigion BBC iPlayer tymor hwy yn gynharach eleni ac mae wedi gwneud gwaith sylweddol arall i ddeall effaith y cynigion, yn cynnwys cynnal ymchwil defnyddwyr. Erbyn hyn mae wedi cwblhau'i brawf budd cyhoeddus ac [wedi'i gyhoeddi gyda dogfennau cefnogol heddiw](#). Mae cynigion y BBC yn cynnwys bod rhaglenni ar gael ar iPlayer am 12 mis wedi darlledu'r bennod olaf yn safonol, gyda pheth cynnwys ar gael am gyfnod hirach.

Rydym yn agor Asesiad Cystadleuaeth BBC. Ein rôl yn unol â'r Siarter a'r Cytundeb yw asesu a yw gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith negyddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae ein hasesiad yn cynnwys adolygu'r gweithdrefnau a ddilynwyd gan y BBC a'i asesiad gwerth cyhoeddus; ac asesu effaith y cynnig ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ar ôl hyn byddwn yn penderfynu un ai y gall y BBC wneud y newid i BBC iPlayer, na chaiff wneud y newid, neu y gall wneud hynny ar amodau. Gallwn hefyd fynnu bod y BBC yn ailystyried agweddau o'r cynnig.

Ymgynghoriad yw hwn yn gofyn i randdeiliaid am eu barn ar: (i) sut y gallai cynigion y BBC effeithio arnynt o bosib; a (ii) p'un a fydd y dadansoddiad rydyn ni'n bwriadu'i wneud yn rhoi sylw i'r prif faterion sy'n codi yn sgil y cynigion. Rydym yn gofyn yn benodol am dystiolaeth nawr gan randdeiliaid ar sut y bydd cynigion y BBC yn effeithio ar eu busnesau presennol neu'u cynlluniau buddsoddi.

Y camau nesaf. Ar ôl ystyried yr ymatebion a dadansoddi ymhellach, rydym yn disgwyl ymgynghori ynghylch ein casgliadau dros dro ym mis Mehefin, gan roi cyfle terfynol i randdeiliaid i gyflwyno sylwadau. Rydym wedyn yn disgwyl cyhoeddi penderfyniad terfynol erbyn mis Awst.